



16.06.2020

Annwyl Rieni/Ofalwyr

Ar 12.06.2020, fe anfonom ni ddolen at rieni/gofalwyr trwy neges destun i'ch cyfeirio at ddau lythyr ar wefan yr ysgol. Roedd y llythyrau oddi wrth Gyfarwyddwr Addysg CBS Pen-y-bont ar Ogwr a'r ysgol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi gan Lywodraeth Cymru am y sesiynau Ailgydio, Dal i Fyny a Pharatoi dewisol a fydd ar gael i ddisgyblion ym mis Mehefin/Gorffennaf. Rydym bellach mewn sefyllfa i gyfleu rhagor o wybodaeth i chi am y sesiynau dewisol hyn.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol, ni fydd yr ymweliadau hyn â'r ysgol yn cynnwys unrhyw ddysgu ffurfiol. A ninnau wedi cau'n sydyn iawn yn ôl ym mis Mawrth, cyfleoedd i ddisgyblion weld yr ysgol a sut y gallai edrych ym mis Medi, yn ogystal â gallu gweld rhai o'u hathrawon a'u cyd-ddisgyblion, yw'r rhain. Byddwn yn gweithio o fewn terfynau a fydd yn golygu bod uchafswm o 8 disgybl ym mhob dosbarth / ardal.

Bydd disgyblion yn cymryd rhan mewn amryw weithgareddau a fydd yn seiliedig ar les, gemau a sesiynau wedi'u cynllunio yn yr awyr agored a bydd eich plentyn yn cael ei (g)wahodd i fynychu gyda'i (h)athro/athrawes dosbarth, lle y bo'n bosibl. Rydym yn argymhell bod y plant yn gwisgo dillad anffurfiol, cyfforddus y gellir eu golchi mewn peiriant golchi. Yn ystod yr wythnosau pan fydd staff yn y dosbarth, bydd gweithgareddau ar Hwb hefyd yn canolbwyntio ar les, gemau a sesiynau wedi'u cynllunio yn yr awyr agored trwy grid gweithgareddau / tasgau dewisol yn ychwanegol at dasgau Llythrennedd a Rhifedd. Yn ystod y ddwy wythnos arall, bydd ein darpariaeth Hwb arferol yn parhau, gyda thasgau dysgu dewisol yn cael eu gosod. Sylwer y bydd yr ymweliadau â'r ysgol yn digwydd yn ystod y diwrnod ysgol arferol, ond y bydd amseroedd danfon a chasglu'n cael eu gwasgaru i gynorthwyo gydag ymbellhau cymdeithasol a byddwn yn gofyn i chi gadw at yr amseroedd hyn, am y rheswm hwn.

Mae pedair wythnos yn weddill yn Nhymor yr Haf a chanllawiau'r Awdurdod Lleol yw bod disgyblion yn mynychu ar ddau achlysur yn ystod y pedair wythnos hon. Felly, bydd yr holl ddisgyblion o'r Meithrin i Flwyddyn 6 yn cael eu gwahodd i fynychu:

- 1) Am un diwrnod yn ystod y pythefnos cyntaf
- 2) Am un diwrnod yn ystod yr ail bythefnos

Gweler yr amserlen isod ar gyfer manylion yr wythnosau pan fydd grŵp/gwpiâu blwyddyn eich plentyn/plant yn cael cynnig y ddau ddiwrnod i ailgydio.

Er nad ydym yn gallu derbyn disgyblion sy'n Codi'n 3 yn ystod yr ymweliadau hyn, fe'ch gwahoddir i barhau i ymgysylltu â'r rhestrau o weithgareddau a ddarperir ar wefan yr ysgol a'r caneuon a storïau ar Cwtsh Mrs Morris. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu maes o law ynglŷn â dyddiadau dychwelyd i'r ysgol yn ystod tymor yr hydref i'r disgyblion hyn, pan allwn eich croesawu'n ôl ac i'r Meithrin.

Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, rydym wedi gwasgaru amseroedd cyrraedd ac ymadael fel bod cyn lleied â phosibl o bobl gyda'i gilydd ar y safle ar unrhyw adeg benodol ac i gynorthwyo gydag ymbellhau cymdeithasol. Mae amseroedd diwrnodau ysgol wedi cael eu pennu gan ystyried oedran y disgyblion sy'n dychwelyd hefyd.

Diwrnodau Ailgydio Dewisol (Tymor yr Haf 2020)			
Grŵp Blwyddyn Cyfredol	Un diwrnod o'r wythnos hon (yr union ddiwrnod i gael ei gadarnhau)	Un diwrnod o'r wythnos hon (yr union ddiwrnod i gael ei gadarnhau)	Amseroedd Ymweld â'r Ysgol
Blwyddyn 6	W.y.d. 29.06.20	W.y.d. 13.07.20	09.00 – 15.15
Blwyddyn 5	W.y.d. 06.07.20	W.y.d. 20.07.20	09.00 – 15.15
Blwyddyn 4	W.y.d. 29.06.20	W.y.d. 13.07.20	09.15 – 15.00
Blwyddyn 3	W.y.d. 06.07.20	W.y.d. 20.07.20	09.15 – 15.00
Blwyddyn 2	W.y.d. 06.07.20	W.y.d. 20.07.20	09.30 – 14.45
Blwyddyn 1	W.y.d. 29.06.20	W.y.d. 13.07.20	09.30 – 14.45
Derbyn	W.y.d. 06.07.20	W.y.d. 20.07.20	09.45 – 14.30
Meithrin	W.y.d. 29.06.20	W.y.d. 13.07.20	09.45 – 14.30

Bydd hwb gofal plant mewn argyfwng yr awdurdod lleol yn parhau i redeg yn yr ysgol o ddydd Llun i ddydd Gwener, o 08:30- 16:30. Dylai ceisiadau ac unrhyw ymholiadau ynghylch y ddarpariaeth hon gael eu cyflwyno'n uniongyrchol i CBS Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n rheoli'r broses o ddyrannu lleoedd yn yr hwb yma.

Yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Lleol, yn anffodus ni fydd cyfleuster Clwb Brecwast ar gael hyd oni hysbysir yn wahanol.

Mae'r Llywodraeth yn disgwyl bod unrhyw ddisgybl sydd wedi cael llythyr gwarchod yn ymatal rhag dod i'r ysgol a bod unrhyw ddisgybl â chyflwr iechyd parhaus yn ceisio cyngor meddygol a chadarnhad i ymweld cyn gwneud hynny.

I'n galluogi i gadarnhau ar ba ddiwrnod yn ystod yr wythnosau arfaethedig y bydd eich plentyn yn cael ei (g)wahodd i fynychu ac yn seiliedig ar yr wybodaeth uchod, fe'ch gwahoddir i gwblhau arolwg byr i roi gwybod i ni, tra rydych yn disgwyl i'r union ddyddiadau gael eu cadarnhau, a ydych yn dymuno bod eich plentyn/plant yn dod i'r sesiynau ailgydio ai peidio. Cwblhewch yr arolwg unwaith ar gyfer pob plentyn sydd wedi'i gofrestru gyda ni os gwelwch yn dda. Mae'r arolwg hefyd yn gofyn i chi ddynodi a fyddai ar blant sydd fel arfer yn gymwys i gael cludiant yn ôl ac ymlaen i'r ysgol angen hyn ar gyfer yr ymweliadau ailgydio. Dynodwch hefyd a oes ar eich plentyn angen pryd twym ynteu a fydd yn dod â chinio pecyn (sicrhewch fod digon o arian yng nghyfrif cinio eich plentyn, lle y bo'n berthnasol). Bydd disgyblion sy'n hawlio Prydau Ysgol Am Ddim yn cael pryd neu ginio pecyn gan yr ysgol yn ôl yr arfer a dylid nodi eu dewis ar yr arolwg.

Mae'r arolwg yn hygyrch tan 12 canol dydd ar ddydd Gwener 19 Mehefin, a bydd yn cau ar y dyddiad hwnnw; mae ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol:

https://forms.office.com/Pages/ResponsePage.aspx?id=Ug4_TzS3ZEGUCRtgHRR5k-H3aMADZeBDv5f9-dmGAQBUOFIIVY5WDCxNFRERUHKV1aOEo4NExQRC4u

Byddwn yn cysylltu â chi erbyn 6pm ar ddydd Llun 22 Mehefin (trwy wasanaeth negeseuon testun yr ysgol) i'ch hysbysu ar ba ddiwrnodau y bydd eich plentyn/plant yn cael gwahoddiad i fynychu'r ysgol. Cyn bod y plant yn dychwelyd i'r ysgol ar ddydd Llun 29 Mehefin, byddwn wrth gwrs yn cyfleu rhagor o wybodaeth i chi am yr hyn y gallant ei ddisgwyl yn ystod y diwrnod ysgol ac ar safle'r ysgol.

Unwaith eto, diolchwn i chi am eich cydweithrediad parhaus ar yr adeg anodd hon ac am eich dealltwriaeth a'ch amynedd yn ystod cyfnod sy'n parhau i fod yn brofiad dysgu i bob un ohonom. Os oes gennych unrhyw ymholiadau penodol ynglŷn â'ch plentyn/plant yn dychwelyd i'r ysgol, cysylltwch â ni'n ddiymdroi ar gyfeiriad e-bost yr ysgol, sef admin.broogwr@bridgend.gov.uk i drafod y rhain.

Gyda'n dymuniadau gorau

Sharon Jayne

Pennaeth

Nik Dart

Cadeirydd y Llywodraethwyr